Dŵr Cymru
Welsh Water

# Crynodeb o Daliadau Preswyl 2021-22

Crynodeb o'n taliadau preswyl yw'r ddogfen hon. Ceir manylion llawn ein taliadau a thelerau ac amodau gwasanaeth yn ein Cynllun Taliadau sydd ar gael ar ein gwefan **dwrcymru.com**

## Taliadau Anfesuredig

Os adeiladwyd eiddo cyn 1 Ebrill 2000 ac nad yw'r deiliad wedi gofyn am fesurydd, bydd yn talu taliadau anfesuredig. Ni fydd y tâl yn adlewyrchu faint o ddŵr a ddefnyddir.

Anfonir biliau anfesuredig unwaith y flwyddyn ar un o ddau fformat, naill ai:

**Tâl Gwerth Ardrethol** — bydd y bil yn cynnwys tâl sefydlog, yn ogystal â thâl fesul punt o'r gwerth ardrethol am yr eiddo

neu

**Tâl Gwasanaeth Unffurf** (ar gyfer eiddo a adeiladwyd rhwng 1 Ebrill 1990 a 31 Mawrth 2000) — mae taliadau'n seiliedig ar werth ardrethol cyfartalog eiddo yng Nghymru.

| Gwasanaethau Dŵr Anfesuredig | (£) |
|---|---|
| Tâl Sefydlog | 132.56 |
| Tâl yn seiliedig ar werth ardrethol - fesul punt o werth ardrethol | 0.8475 |
| Tâl Gwasanaeth Unffurf | 242.74 |

| Gwasanaethau Carthffosiaeth Anfesuredig | (£) |
|---|---|
| Tâl Sefydlog | 200.27 |
| Tâl Sefydlog - Dŵr Budr yn unig | 148.72 |
| Tâl yn seiliedig ar werth ardrethol - fesul punt o werth ardrethol | 1.2992 |
| Tâl Gwasanaeth Unffurf | 369.17 |
| Tâl Gwasanaeth Unffurf - Dŵr Budr yn unig | 317.62 |
| Dŵr Wyneb yn unig - gan gynnwys draenio priffyrdd (ni chodir tâl ar gyfer eiddo sydd â gwerth ardrethol o £25 neu lai) | 48.38 |

Dŵr Cymru
Welsh Water

## Taliadau Mesuredig

Mae biliau mesuredig yn seiliedig ar faint o ddŵr a ddefnyddir. Mae gan bob eiddo a adeiladwyd ers 1 Ebrill 2000 fesurydd. Os byddwch yn symud i eiddo â mesurydd, ni allwch newid i dalu ar sail anfesuredig.

Caiff biliau mesuredig eu hanfon bob chwe mis ac maent yn seiliedig ar ddefnydd go iawn a nodir ar y mesurydd neu amcangyfrif os nad yw'r mesurydd wedi'i ddarllen. Yn gyffredinol, po fwyaf o ddŵr a ddefnyddiwch y mwyaf fydd y bil. Fel arfer codir tâl am garthffosiaeth ar y dybiaeth bod 95% o'r dŵr a ddefnyddir yn dychwelyd i'r garthffos.

Pan fydd bil mesurydd yn cynnwys cyfnod cyn ac ar ôl 1 Ebrill, byddwn yn defnyddio cyfraddau'r flwyddyn flaenorol i godi tâl am y dŵr a ddefnyddiwyd cyn 1 Ebrill a'r cyfraddau a ddangosir isod i godi tâl am y dŵr a ddefnyddir ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw.

Mae tâl mesuredig yn cynnwys tair elfen:

**Cyflenwad Dŵr** — yn seiliedig ar y defnydd o ddŵr a gofnodir gan y mesurydd mewn metrau ciwbig. Gellir codi tâl am yr holl ddŵr a ddefnyddir ac eithrio dŵr a ddefnyddir at ddibenion diffodd tân.

**Carthffosiaeth** — hefyd yn seiliedig ar y defnydd o ddŵr a gofnodir gan y mesurydd.

**Tâl Gwasanaeth** — caiff ei gyfrifo'n ddyddiol ac mae'n seiliedig ar faint y mesurydd. Maint y rhan fwyaf o fesuryddion preswyl yw hyd at 25 mm. Mae'r tâl gwasanaeth yn cynnwys y gost o ddarllen a chynnal a chadw'r mesurydd a gosod un newydd pan fydd angen.

| Taliadau mesuredig safonol – preswyl | Dŵr (£) | Carthffosiaeth (£) |
|---|---|---|
| Cyfradd gyfeintiol safonol fesul metr ciwbig | 1.3078 | 1.7318 |
| Cyfradd gyfeintiol carthffosiaeth - Dŵr Budr yn unig fesul metr ciwbig | | 1.5218 |

| Tâl Gwasanaeth | Dŵr (£) | Carthffosiaeth (£) | Carthffosiaeth - Dŵr Budr yn unig (£) |
|---|---|---|---|
| Hyd at 25mm | 36.67 | 98.00 | 73.40 |
| 30mm | 36.67 | 98.00 | 73.40 |
| 40mm | 36.67 | 98.00 | 73.40 |

## Ad-daliadau Dŵr Wyneb

Mae taliadau carthffosiaeth yn cynnwys tâl am ddŵr wyneb a draenio priffyrdd. Mae hyn yn cynnwys y gost o ddraenio, trin a gwaredu dŵr glaw. Os nad yw dŵr glaw eich cartref yn draenio i'r garthffos gyhoeddus, efallai na fydd angen i chi dalu'r elfen dŵr wyneb. Gellir cyflwyno ffurflen gais am Ad-daliad Draenio Dŵr Wyneb ar ein gwefan **dwrcymru.com** neu gallwch wneud cais am un drwy ffonio **0800 052 0145**. Bydd unrhyw ad-daliad yn weithredol o 1 Ebrill 2015 neu'r dyddiad meddiannu os yw'n hwyrach.

Dŵr Cymru
Welsh Water

## Tâl Mesuredig ar Sail Asesiad

Gall cwsmer preswyl ddewis tâl mesuredig ar sail asesiad (AMC) pan nad yw'n rhesymol ymarferol gosod mesurydd, neu os yw'n afresymol o ddrud i'w osod. Mae'r tâl mesuredig ar sail asesiad yn seiliedig ar fand y tâl dŵr, nifer y deiliaid a'r dybiaeth bod 95% o'r dŵr yn cael ei ollwng i'r garthffos.

| Dŵr | Band A - Defnydd ar gyfartaledd<br>Yn seiliedig ar unedau llwytho/cyfarpar yn yr eiddo | | Band B - Defnydd isel<br>Yn seiliedig ar unedau llwytho/cyfarpar yn yr eiddo | |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y deiliaid | Tâl blynyddol (£) | Defnydd o Ddŵr a Aseswyd ($m^3$/y flwyddyn) | Tâl blynyddol (£) | Defnydd o Ddŵr a Aseswyd ($m^3$/y flwyddyn) |
| 1 | 121.68 | 65 | 100.75 | 49 |
| 2 | 156.99 | 92 | 130.83 | 72 |
| 3 neu fwy | 198.83 | 124 | 167.45 | 100 |

| Carthffosiaeth | Band A - Defnydd ar gyfartaledd<br>Yn seiliedig ar unedau llwytho/cyfarpar yn yr eiddo | | Band B - Defnydd isel<br>Yn seiliedig ar unedau llwytho/cyfarpar yn yr eiddo | |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y deiliaid | Tâl blynyddol Llawn (£) | Tâl blynyddol Dŵr Budr yn unig (£) | Tâl blynyddol Llawn (£) | Tâl blynyddol Dŵr Budr yn unig (£) |
| 1 | 204.94 | 167.37 | 178.61 | 144.24 |
| 2 | 249.36 | 206.41 | 216.46 | 177.49 |
| 3 neu fwy | 302.00 | 252.67 | 262.52 | 217.97 |

Dŵr Cymru
Welsh Water

# Tariffau Cymorth Fforddiadwyedd

Mae'r Cwmni'n cynnig amrywiaeth o gymorth fforddiadwy gyda'r nod o gadw biliau'n fforddiadwy i gwsmeriaid sydd ag incwm isel neu gwsmeriaid sy'n agored i niwed.

## HelpU

Mae'r tariff hwn yn helpu'r cartrefi yn ein rhanbarth sydd â'r incwm isaf. Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y tariff hwn, mae'n rhaid i'r cyflenwad dŵr i'r cartref fod at ddefnydd domestig yn unig ac mae'n rhaid i gyfanswm incwm presennol y cartref fod yn llai na'r trothwy cyhoeddedig y flwyddyn. Mae rhagor o wybodaeth am gymhwysedd cwsmeriaid i gael tariff **Helpu** ar gael yn **dwrcymru.com**

Welsh translation needed

| HelpU | Dŵr (£) | Carthffosiaeth (£) |
|---|---|---|
| Tâl blynyddol (for existing HelpU customers at 31st July 2020, not available to new customers) | 95.00 | 126.00 |
| Tâl blynyddol (available to new applications from 1st August 2020) | 108.00 | 142.00 |

## WaterSure Cymru

Mae'r tariff hwn ar gael i gwsmeriaid sy'n cael budd-daliadau neu gredydau treth penodol. Mae'n helpu teuluoedd mawr a chartrefi lle mae gan aelod o'r cartref gyflwr meddygol sy'n golygu bod angen iddo ddefnyddio llawer mwy o ddŵr. Mae hwn ond yn addas ar gyfer cwsmeriaid sydd â mesurydd.

Mae rhagor o wybodaeth am **WaterSure Cymru** ar gael yn **dwrcymru.com**

| WaterSure Cymru (cwsmeriaid sydd â mesurydd yn unig) | Dŵr (£) | Carthffosiaeth (£) |
|---|---|---|
| Tâl blynyddol | 150.00 | 210.00 |

| AMC WaterSure Cymru | Dŵr (£) | Carthffosiaeth (£) |
|---|---|---|
| Tâl blynyddol | 150.00 | 210.00 |

## Cymorth Dŵr Cymru

Bydd angen i gwsmeriaid cymwys a oedd ond yn talu tâl trawsnewid Cymorth Dŵr Cymru ar gyfer y gwasanaeth carthffosiaeth dalu tâl blynyddol trawsnewid Cymorth Dŵr Cymru ar gyfer carthffosiaeth yn unig. Nid yw'r tariff hwn ar gael i gwsmeriaid a fu'n talu tâl trawsnewid Cymorth Dŵr Cymru cyfunol ar gyfer dŵr a charthffosiaeth.

| Cymorth Dŵr Cymru - Pontio | Carthffosiaeth (£) |
|---|---|
| Tâl blynyddol | 193.88 |